# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
# COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG RITHIOL
# NOS SUL 31/01/2021 AM 7.00pm

**1. CROESO'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol i'r cyfarfod a drefnwyd i barhau â'r drafodaeth yn ymwneud â'r pryniant o bosibl cyn-adeilad Eglwys Dewi Sant, gan y Cyngor Cymuned at ddibenion y Gymuned.

**2. YN BRESENNOL**

Y Gyngh. Angharad Jones; Y Cyngh John Jones; Y Gyngh. Laura Jones; Cynghorydd Sirol. Ifan Lloyd-Davies; Y Cyngh.  Gareth Owen; Y Cyngh. Doug Rowbotham & Eleri Thomas (Clerc).

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd ac yn cysgodi); Y Cyngh. Non-Jones; Cllr Wil Lewis (heb fod yn gwneud defnydd o gyfarfodydd rithiol) & Y Cyngh. Alun Price-Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd ac yn cysgodi).

**4. Y GWERTHWYR**

Meddylid mai'r gwerthwyr oedd yr Eglwys yng Nghymru (70%) ac Ystâd Lisburne dan law Mr John Vaughan (30%).  Roedd rhai aelodau o'r farn mai Ystâd Lisburne oedd â'r gyfran uchaf.  Dyfynnwyd Teitl y Gweithredoedd *yr Eglwys yng Nghymru* fel y gwerthwr.  Gresynwyd y ffaith nad oedd yr *Eglwys* yng Nghymru wedi ceisio datganiad o ddiddordeb o'r gymuned cyn gosod yr eiddo ar y farchnad.  Morgan a Davies Gwerthwyr Tai, oedd yn ymwneud â'r gwerthiant.

**5. EDRYCH O GWMPAS YR ADEILAD**

Ymwelodd dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned â'r Eglwys ar ddydd Sadwrn 30ain Ionawr 2021 am 10.30am megis y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies; Y Gyng. Laura Jones; Y Cyng. Non-Jones, y Cyngh. Gareth Owen a Mr Wyn Davies.

Amcangyfrifodd yr Gwerthwr Tai y byddai'r eiddo'n cael ei werthu'n gyflym iawn.  Roedd amser yn gyfyngedig felly.  CYTUNWYD gofyn i Mr John Vaughan tybed a fyddai'n bosibl oedi'r gwerthiant, er mwyn caniatau'r Cyngor Cymuned yr amser i ystyried  posibiliadau e.e. cyllid grant.

Teimlwyd ei fod yn ddyletswydd ar y Cyngor Cymuned i glustnodi sylw i adeilad cyhoeddus lleol, a oedd bellach yn ddiangen.  Gallai sefyllfa debyg godi yn y dyfodol a meddylid y dylid mabwysiadu safbwynt diduedd.

**GWAITH ADFEROL SYDD EI ANGEN O GANLYNIAD I'R AROLWG**
**Roedd hyn yn cynnwys.**

- ail-wneud y to;
- y talcen: angen adfer y plwm
- drysau blaen/cefn angen sylw.

**6. Sut ddefnydd all y Cyngor Cymuned wneud o'r adeilad?**

6.1 **Nid yw'n adeilad rhestredig** felly gellid ei ddatblygu. Gellir o bosibl ei ddymchwel ac adeiladu 2/3 annedd (cymdeithasol a fforddiadwy mewn ymgais i gadw pobl ieuainc yn yr ardal). Gallai'r Cyngor Cymuned weithio mewn partneriaeth â sefydliadau i adnewyddu'r adeilad.

6.2 **Ardal o flaen yr Eglwys:** gellir neilltuo ardal ar gyfer pwyntiau gwefru ceir trydan.

6.3 **Twristiaeth:** cymryd mantais o bobl sy'n ymweld â'r Abaty ac yn teithio hebio'r Eglwys; rhai sy'n teithio o Lanbedr Pont Steffan i Bontarfynach. Dylai'r fenter gynhyrchu incwm ac yn gynaliadwy ar ôl i'r cyllid grand ddirwyn i ben. Menter ddi-elw yw'r bwriad ac ailfuddsoddir elw er lles y Gymuned.

**7. Y FFORDD YMLAEN**

Ailadroddwyd y byddai Astudiaeth Ddichonoldeb yn angenrheidiol. .

**CYTUNWYD** i'r Cynghorydd Sir Ifan Lloyd Davies gysylltu â Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol Twf a Menter, Cyngor Sir Ceredigion; Meleri Richards, Uwch Swyddog Grant, Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd Sirol Rhodri Evans, Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion, i drefnu cyfarfod rithiol i drafod dichonoldeb y prosiect.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm.**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Fawrth 1af Chwefror 2021 @7pm via Zoom.**

================================================== (Signed/Date)